# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

**(SLC (3)-25-09)**

## Papur 4 : Atodiad : Cod Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Is-ddeddfwriaeth gan Weinidogion Cymru

### Cod Asesiad Effaith Rheoleiddiol Gweinidogion Cymru Ar Gyfer Is-Ddeddfwriaeth

### Cyflwyniad

1. Diben y Cod hwn yw nodi polisi Gweinidogion Cymru ar gynnal asesiadau effaith rheoleiddiol mewn perthynas ag is-ddeddfwriaeth berthnasol y maent yn bwriadu ei gwneud, gan ddefnyddio eu pwerau is-ddeddfwriaethol eu hunain.

2. Ers pasio Deddf Llywodraeth Cymru 2006 Gweinidogion Cymru sy'n gyfrifol bellach am wneud is-ddeddfwriaeth yng Nghymru. Mae llawer o is-ddeddfwriaeth yn cael ei wneud gan Weinidogion Cymru a hynny mewn nifer o feysydd ac ar draws portffolios gweinidogol.

3. Gellir gweld manylion am is-ddeddfwriaeth drwy ddefnyddio'r ddolen isod: h

ttp://www.assemblywales.org/bus-home/bus-legislation/bus-legislation-sub.htm

4. Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i ystyried effaith is-ddeddfwriaeth ar fusnes, y sector gwirfoddol, llywodraeth leol ac eraill; ac ar ei dyletswyddau statudol a gaiff ei egluro isod. Mae is-ddeddfwriaeth, fodd bynnag, yn amrywio'n fawr o ran ei natur ac felly mae angen i'r asesiad fod yn gymesur, hynny yw, bydd hyd a manylder yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn gymesur â'r effaith reoleiddiol a gynigir.

5. Gosodwyd y Cod hwn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 20 Hydref 2009.

### 1. Y Sefyllfa Statudol

1.1 Caiff y Cod hwn ei lunio o dan Adran 76 Deddf Llywodraeth Cymru 2006 sy'n darparu bod yn rhaid i Weinidogion Cymru lunio cod ymarfer yn nodi sut ac o dan ba amgylchiadau y bwriadant gynnal asesiad effaith rheoleiddiol wrth wneud is-ddeddfwriaeth Gymreig (fel y'i diffiniwyd).

### 2. Diffiniadau

2.1 Mae'r diffiniadau canlynol yn berthnasol at ddibenion y Cod hwn:

### "Asesiad Effaith Rheoleiddiol "

"an assessment as to the likely costs and benefits of complying with relevant Welsh subordinate legislation" (Adran 76 (2)(a) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006)

Yn hyn o beth, gall Asesiad Effaith Rheoleiddiol gael ei ystyried:-

yn broses i helpu Gweinidogion Cymru ystyried effaith y rheoliad arfaethedig ar fuddiannau unigolion, grwpiau, sefydliadau ac ati.

yn gyfrwng i alluogi Gweinidogion Cymru i bwyso a mesur costau a manteision yr holl opsiynau sydd ar gael iddynt cyn gweithredu polisi; ac

yn fodd o gyflwyno'r dystiolaeth berthnasol ar effeithiau cadarnhaol a negyddol ymyriadau o'r fath at ddibenion craffu ar y dystiolaeth honno.

### "Is-ddeddfwriaeth Gymreig Berthnasol"

Ceir yn Adran 76 (2)(b) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 y diffiniad canlynol mewn perthynas ag is-ddeddfwriaeth Gymreig berthnasol:-

"subordinate legislation is relevant Welsh subordinate legislation if it is made by Welsh Ministers, the First Minister or the Counsel General and the statutory instrument (or a draft of the statutory instrument) containing it is required to be laid before the Assembly"

2.2 Mae a wnelo is-ddeddfwriaeth fel arfer â newidiadau manwl i'r gyfraith a wneir fel arfer o dan bwerau sy'n deillio o Ddeddf Seneddol neu Fesur Cynulliad.. Fodd bynnag, yn unol â'r diffiniad o dan adran 76(2)(b) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r darpariaethau yn y Cod hwn yn ymwneud yn benodol â pharatoi offerynnau statudol (OS) sydd i'w gosod gerbron y Cynulliad.

2.3 Mae'r newidiadau all gael eu gwneud drwy is-ddeddfwriaeth yn amrywio o faterion technegol, fel uwchraddio ffigurau yn unol â chwyddiant, i gynnig mwy o fanylder o dan Ddeddf neu Fesur (gall Deddf neu Fesur ddiffinio ei diben neu ei ddiben cyffredinol a gosod y fframwaith cyfreithiol; yng nghynnwys yr is-ddeddfwriaeth y ceir y manylion perthnasol).

## 3. Gofynion Rheolau Sefydlog

3.1 Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r rheolau sy'n sail i holl drafodion y Cynulliad (er enghraifft y Cyfarfodydd Llawn a chyfarfodydd pwyllgor ac ati). Ceir ynddynt ddarpariaeth benodol mewn perthynas ag asesiadau effaith rheoleiddiol ar gyfer is-ddeddfwriaeth. Mae Rheol Sefydlog 24.1 yn datgan:

"Rhaid cael Memorandwm Esboniadol i gyd-fynd ag unrhyw offeryn statudol neu offeryn statudol drafft a osodir gerbron y Cynulliad ac nad yw'n ddarostyngedig i weithdrefn seneddol, a rhaid i'r Memorandwm Esboniadol gynnwys unrhyw Asesiad Effaith Reoliadol a baratoir mewn perthynas â'r offeryn."

## 5. Y polisi o ran cynnal Asesiad Effaith Rheoleiddiol

4.1 Ac eithrio yn yr achosion isod, rhaid ystyried asesiad o effaith unrhyw is-ddeddfwriaeth arfaethedig pan fydd yr opsiynau ar gyfer datblygu'r polisi yn cael eu hystyried. Mae hyn yn gyson â pholisi cyfredol Llywodraeth Cynulliad Cymru o ran ymgynghori ag eraill (gan gynnwys busnesau, llywodraeth leol a'r sectorau gwirfoddol) a'u cynnwys yn y broses o ddatblygu polisïau cyn gynted ag y bo modd. Mae'r profion a ddefnyddir wrth gynnal asesiad o'r fath yn rhan o broses barhaus sy'n dechrau wrth asesu a oes gwir angen deddfwriaeth i roi polisïau newydd ar waith. Caiff hyn ei wneud yn rhan o broses ehangach o ddatblygu polisi a elwir yn Borth i Bolisïau. Yn sgil y broses Porth i Bolisïau, bydd crynodeb o'r dogfennau yn cael eu cyhoeddi ar-lein.

4.2 Polisi Gweinidogion Cymru fydd cynnal asesiad effaith rheoleiddiol - i'w gynnwys yn rhan o'r Memorandwm Esboniadol sy'n cael ei osod ochr yn ochr â'r holl offerynnau statudol a'r offerynnau statudol drafft a wnaed/i'w gwneud gan Weinidogion Cymru ac sy'n cael eu gosod ganddynt gerbron y Cynulliad - gyda'r eithriadau canlynol:

Lle nad yw'r is-ddeddfwriaeth yn bodloni'r meini prawf yn adran 76, hynny yw nad yw'n cael ei gwneud gan offeryn statudol neu nad oes angen ei gosod gerbron y Cynulliad.

Lle bo'r is-ddeddfwriaeth, yn syml, yn cynyddu ffi statudol yn unol â fformiwla a bennwyd ymlaen llaw (er enghraifft, cyfradd chwyddiant);

Lle bo angen gwneud diwygiadau technegol neu ddiwygiadau ffeithiol er mwyn diweddaru rheoliadau ac ati nad ydynt yn effeithio'n fawr ar bolisi.

Ar gyfer Gorchmynion Cychwyn sy'n rhoi deddfwriaeth sylfaenol neu Fesurau Cynulliad mewn grym gan gynnwys Gorchmynion o'r fath sydd hefyd yn arwain at wneud darpariaethau canlyniadol neu arbedion etc;

Lle bo'r is-ddeddfwriaeth Gymreig berthnasol yn destun gweithdrefn ychwanegol o dan Senedd y DU. Mewn achosion o'r fath, bydd yn rhaid penderfynu ar y cyd ag Adran berthnasol Llywodraeth y DU a fydd angen asesiad effaith rheoleiddiol.

Lle bo angen rhoi'r is-ddeddfwriaeth Gymreig berthnasol yn ei lle yn ddi-oed i ddelio ag argyfwng (er enghraifft, Clwy'r Traed a'r Genau neu Ffliw Adar);

Lle bo is-ddeddfwriaeth Gymreig berthnasol yn cael ei wneud wrth arfer y pwerau statudol hynny a ganiateir gan Ddeddf neu Fesur nad ydynt mewn unrhyw fodd yn rhoi disgresiwn i Weinidogion Cymru ynghylch sut y dylai'r pwerau hynny gael eu defnyddio.

4.3 Mae'n bosibl y bydd yna achosion lle nad yw is-ddeddfwriaeth yn cael ei gwneud drwy Offeryn Statudol a/neu lle nad oes angen iddi gael ei gosod gerbron y Cynulliad ond lle gall y Gweinidogion ystyried fod iddi effaith sylweddol ac felly bod angen asesu ei heffaith. Bydd pob is-ddeddfwriaeth o'r fath yn cael ei hasesu fesul achos ac ar ôl gwneud hyn, gall Gweinidogion Cymru ddewis i fynd ati yn wirfoddol i wneud Asesiad Effaith Rheoleiddiol p'un ai a fydd y ddeddfwriaeth yn dod o dan un o'r eithriadau a nodir ai peidio.

4.4 Lle bo mwy nag un Offeryn Statudol yn cael ei ddiwygio ar yr un pryd i fodloni un amcan polisi, a lle bo'r newidiadau yn dibynnu ar ei gilydd, dim ond un asesiad y bydd angen ei wneud.

## 5. Ymgynghori mewn perthynas ag Asesiadau Effaith Rheoleiddiol ar gyfer is-ddeddfwriaeth

Cynlluniau Statudol Gweinidogion Cymru

5.1 Yn rhan o'r broses reoleiddiol a'r gwaith o wneud Asesiad Effaith Rheoleiddiol, bydd Gweinidogion Cymru yn dilyn y camau cywir a phriodol er mwyn ymgynghori â'r rheini sy'n debygol o gael eu heffeithio a'r rheini sydd â buddiant o ran effaith gyffredinol y ddeddfwriaeth. Bydd ymgynghori o'r fath yn gyson â darpariaethau'r cynlluniau partneriaeth statudol y ceir darpariaeth ar eu cyfer yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006:

Adran 73 - y cynllun partneriaeth llywodraeth leol (Pennod 9);

Adran 74 - cynllun y sector gwirfoddol (Pennod 4) ;ac,

Adran 75 - y cynllun ar gyfer busnesau (paragraffau 25 - 30)

Swyddogaethau Statudol Gweinidogion Cymru

5.2 Wrth wneud Asesiad Effaith Rheoleiddiol, bydd Gweinidogion Cymru yn ystyried y swyddogaethau statudol hynny a nodir isod (yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Cymru 2006):

Adran 77 - Cyfle cyfartal (lle bo'n rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau eu bod yn cyflawni eu swyddogaethau gan roi'r sylw dyladwy i'r egwyddor y dylid sicrhau cyfle cyfartal i bawb);

Adran 78 - Yr Iaith Gymraeg (lle bo'n rhaid i Weinidogion Cymru fabwysiadu cynllun a strategaeth sy'n nodi sut y caiff y Gymraeg ei hyrwyddo; sut y caiff ei defnyddio mewn perthynas â'r gwasanaethau cyhoeddus a ddarperir; ac wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru y caiff y Gymraeg a'r Saesneg eu trin yn gyfartal); ac

Adran 79 - Datblygu Cynaliadwy (lle bo'n rhaid i Weinidogion Cymru nodi mewn cynllun sut yr ânt ati i sicrhau, wrth gyflawni eu swyddogaethau, eu bod yn hybu datblygu cynaliadwy).

5.3 Polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru fel rheol yw ymgynghori am leiafswm o 12 wythnos ar gynigion polisi newydd/mawr a hefyd ymgynghori ar-lein.

5.4 Gellir gweld yr ymgyngoriadau sydd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar y gweill ar hyn o bryd drwy ddefnyddio'r ddolen ganlynol: http://wales.gov.uk/consultations/?skip=1&lang=cy

**6. Diwygio ac ail-lunio**

6.1 Rhaid i Weinidogion Cymru barhau i adolygu'r Cod ar gyfer Asesiadau Effaith Rheoleiddiol (adran 76(3)(a) Deddf Llywodraeth Cymru 2006).

6.2 Os bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu eu bod am ddiwygio neu ail-lunio'r Cod o bryd i'w gilydd, rhaid iddynt:

ymgynghori â'r gyfryw bobl a fydd yn eu tyb hwy yn briodol;

cyhoeddi'r cod pan fyddant yn ei ail-lunio;

cyhoeddi unrhyw ddiwygiadau (naill ai'r diwygiadau eu hunain neu'r cod diwygiedig yn ei gyfanrwydd); ac

os caiff y cod ei ail-lunio neu ei ddiwygio, yna gosod copi gerbron y Cynulliad

7. **Ymgynghori ynghylch y Cod**

7.1 O ystyried yn arbennig yr egwyddorion yn y cynllun ar gyfer llywodraeth leol, y cynllun ar gyfer busnesau a chynllun y sector gwirfoddol, cynhaliwyd gan Weinidogion Cymru ymgynghoriad llawn ag unigolion /sefydliadau perthnasol ar gynnwys y Cod hwn rhwng 21 Gorffennaf a 21 Hydref 2008.

7.2 Gofynnwyd i'r rhai yr ymgynghorwyd â hwy ystyried cynnwys y Cod a rhoi eu barn ar ei gwmpas arfaethedig, yn arbennig mewn perthynas â'u maes penodol hwy o arbenigedd neu'r sector y maent yn gweithio ynddo"."